# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 30 Ionawr 2014** |
| Amser: | **13:02 – 14:15** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_05_02_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Rebecca Evans**<br>**William Graham**<br>**Lynne Neagle**<br>**Gwyn R Price**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Yr Athro Jean White, Prif Swyddog Nyrsio**<br>**Polly Ferguson, Llywodraeth Cymru**<br>**Helen Whyley, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Chloe Davies (Dirprwy Glerc)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1. Apologies were received from Elin Jones AM, Kirsty Williams AM and Darren Millar AM.

## 2 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Prif Swyddog Nyrsio

2.1. Bu'r Prif Swyddog Nyrsio a'i swyddogion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2. Yn ystod y sesiwn, cytunodd y Prif Swyddog Nyrsio i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Nodyn yn manylu sut mae adroddiadau a gynhyrchwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cael effaith uniongyrchol ar ei gwaith;
- Rhagor o fanylion am rôl gwasanaethau gweithlu, addysg a datblygu Llywodraeth Cymru yn y broses cynllunio gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch y dangosyddion a ddefnyddir wrth bennu cynlluniau gweithlu;
- Nodyn ynghylch nifer y nyrsys ardal a chymunedol yng Nghymru;
- Rhagor o fanylion ynghylch y cod hylendid sy'n cael ei ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran y Prif Swyddog Nyrsio, a chadarnhad ynghylch pryd fydd y gwaith wedi'i gwblhau.

2.3. Cytunodd y Prif Swyddog Nyrsio i rannu'r copi diweddaraf o'r adroddiad rheolaidd y mae'n ei chael oddi wrth adran Cymru o'r fenter "Cryfhau'r Ymrwymiad", sy'n rhedeg ledled y DU, sy'n ymwneud â nyrsio anableddau dysgu.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer gweddill y cyfarfod

3.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Trafod cwmpas ymchwiliadau posibl yn y dyfodol i wasanaethau orthodontig yng Nghymru a chynllun cyflawni ar gyfer canser Llywodraeth Cymru

4.1. Cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl y ddau ymchwiliad a chytunodd i ofyn am dystiolaeth maes o law.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1. Nododd y pwyllgor gofnodion ei ddau gyfarfod blaenorol.